# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

# ADRODDIAD AR GYFER YR AWDURDOD TÂN

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 15fed Rhagfyr 2003 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Rhoi gwybod i'r Aelodau am weithredu'r Adolygiad o'r Strwythur Rheolaethol, a chadarnhau'r hynt hyd yn hyn. |

**1. <u>Gwybodaeth</u>**

1.1 Yn y cyfarfod o'r Awdurdod Tân ar 18fed Mawrth 2002, cafodd yr aelodau wybod am fwriadau'r Prif Swyddog Tân o ran Strwythur Rheolaethol newydd ar gyfer Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru. Penderfynwyd cyflwyno'r adroddiad i'r Panel Gweithredol ei ystyried, a bod y Panel wedyn yn cyflwyno ei argymhellion i'r Awdurdod Tân eu cymeradwyo.

1.2 Cafodd yr aelodau yr wybodaeth ddiweddaraf a'r hynt hyd hynny yn y cyfarfod o'r Awdurdod Tân ar 24ain Mehefin 2002. Cynhaliwyd cyfarfodydd ar y cyd gyda'r cyrff cynrychioliadol rhwng Gorffennaf a Hydref y flwyddyn honno, ond cawsant eu gohirio oherwydd yr anghydfod diwydiannol.

**2. <u>Cefndir</u>**

2.1 Yn y cyfarfod o'r Awdurdod Tân ar 27ain Hydref 2003, cymeradwyodd yr aelodau y Cynllun Integredig Rheoli Risg, ac awdurdodi ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad.

2.2 Un o'r Risgiau y tynnwyd sylw ato yn y Cynllun Integredig Rheoli Risg oedd bod y strwythur drefniadol presennol yn rhy drwm ar y brig a bod gormod o haenau o reolaeth. Y cam arfaethedig ydy mabwysiadu egwyddorion y strwythur drefniadol newydd fel yr argymhellwyd yn yr Adolygiad o'r Strwythur Rheolaethol yn 2002.

2.3 Mae'r gwaith ymgynghori gydag Undeb y Brigadau Tân wedi dechrau eto, ac yn ddiweddar cyfarfu'r Prif Swyddog Tân â swyddogion o'r Undeb i drafod yr Adolygiad o'r Strwythur Rheolaethol. Mae rhagor o gyfarfodydd wedi eu trefnu. Gwnaethpwyd cynnydd ar lefel reolaethol y Prif/Uwch Swyddogion. Ers deunaw mis mae dwy swydd Uwch Swyddog Rhanbarthol wedi bod yn wag a'r gwaith wedi ei wneud gan un Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Dros Dro ychwanegol fel rhan o'r strwythur am y tro y cytunwyd arni rhwng y Prif Swyddog Tân a'r cyrff cynrychioliadol.

**2.** **Cefndir** *(parhad)*

2.4 Mae'r strwythur yma wedi gweithio'n iawn a'r bwriad nawr yw tynnu dwy swydd Uwch Swyddog Rhanbarthol ac un Swyddog Rhanbarthol Gradd 1 o'r llu presennol, a chreu un swydd Prif Swyddog Tân Cynorthwyol yn eu lle. Ni fyddai hyn yn golygu bod unrhyw un yn colli ei swydd na rhywun yn cael ei adleoli'n afresymol, ond bydd yn ffurfioli'r trefniadau sy'n bod o ran uwch reolaeth, trefniadau sydd wedi bod, ar y cyfan, yn weithredol ers y deunaw mis diwethaf. Mae Undeb y Brigadau Tân yn argymell derbyn y cynnig yma i'w aelodau.

2.5 Yr arbedion net yng nghyllideb 2004/05 fydd £105,427. Mae'r swm yma wedi ei gynnwys yn adroddiad y Trysorydd ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2004/05.

2.6 Bydd yr ymgynghori'n mynd yn ei flaen gyda'r Undebau ar weithredu gweddill yr Adolygiad o'r Strwythur Rheolaethol.

**3.** **Argymhellion**

3.1 Cadarnhau lleihau dwy swydd Uwch Swyddog Rhanbarthol ac un Swyddog Rhanbarthol Gradd 1.

3.2 Ychwanegu un swydd Prif Swyddog Tân Cynorthwyol at strwythur y prif swyddogion.